# UNED : Y FUWCH EIDION – BUCHOD AMNEWID

# STAFF

## CYFLWYNIAD

Pwrpas yr Uned hon ydi pwysleisio’r rhesymau dros ddethol gwartheg bridio ac amlinellu’r cyfle i gael heffrod amnewid.

Ar ddiwedd yr Uned hon, bydd myfyrwyr yn gallu pennu polisi didoli/difa ac amnewid ar gyfer buches eidion.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

DIDOLI/DIFA - gwartheg sy’n cael eu gollwng o batrwm lloia’r fuches. Buchod anffrwythlon a hesb, buchod â phroblemau cadair/pwrs, buchod yn tangyflawni, hen fuchod

BUCHOD AMNEWID - wedi eu magu gartref, wedi eu prynu

DEWIS - iachusrwydd, anianawd, brîd, maint, rhinwedd genetig - data perfformiad a GBT au (*EBV*)

## ADNODDAU

HCC (2007) Gwneud y Gorau o’ch Buchod Sugno

HCC (2008) Bridio Buches Eidion Broffidiol

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### CYFLWYNIAD

Mae llwyddiant buches eidion yn dibynnu ar ddidoli/ddifa rheolaidd o’r buchod sy’n anghynhyrchiol oherwydd anffrwythlondeb, cloffni, mastitis, cynnyrch llaeth isel neu ansawdd gwael y llo. Er bod gwartheg wedi’i didoli/difa yn rhoi incwm gwerthfawr, mae cael polisi didoli/difa ac amnewid effeithiol yn angenrheidiol, er mwyn lleihau’r gost o ran proffidioldeb buches, a dylid cadw cyfradd amnewid flynyddol y fuches ar gyfartaledd o 17% neu lai.

### ADNODDAU GWYBODAETH